Atal rhag cofrestru â'r cynllun Fetio a Gwahardd.

Y mae'n bosibl eich bod bellach, parthed Cynllun Fetio a Gwahardd, fod y cam o gofrestru â'r ADA bellach wedi ei atal er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ailfodelu'r cynllun, yn ôl i lefelau cymesurol, synnwyr cyffredin. **O ganlyniad ataliwyd y cam o gofrestru â'r ADA rhag mynd yn ei flaen, ac ni lansir hwn bellach ar Orffennaf 26 2010.**

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May, fod diogelwch plant ac oedolion bregus 'o'r pwysigrwydd pennaf i'r llywodraeth newydd', ond for ymagwedd resymol yn hanfodol. Aeth yn ei blaen i ddweud bod 'aelodau'r llywodraeth wedi gwrando ar y feirniadaeth ac y byddant yn ymateb trwy gyflwyno cynllun sydd wedi ei ailwampio'n sylfaenol. Rhaid diogelu grwpiau bregus yn briodol, mewn ffordd sy'n gymesurol ac yn synhwyrol. Bydd ail-lunio'r Cynllun Fetio a Gwahardd yn sicrhau y digwydd hyn'.

Ymhlith trefniadau presennol y cynllun a fydd yn parhau, y mae'r canlynol:-

- Er Ionawr 2009, y mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) wedi bod yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar wahardd. Bydd yn parhau i gynnal dwy restr a ddiweddarir yn gyson, un yn nodi'r bobl a waherddir rhag gweithio gyda phlant, a'r llall, y bobl a waherddir rhag gweithio gydag oedolion bregus.
- Bydd y gofynion presennol parthed gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn parhau yn eu lle, a gall y bobl hynny sydd â hawl i dderbyn gwiriadau o'r fath barhau i wneud cais amdanynt; a
- phery'n ymrwymiad cyfreithiol ar gyflogwyr i hysbysu'r ADA os ydynt wedi symud neu ddiddymu enw unigolyn oherwydd eu bod wedi niweidio, neu oherwydd bod risg o niwed i aelod o grŵp bregus.

Mae rhychwant y broses o ailfodelu - i'w gydlynu gan y Swyddfa Gartref mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg - bron yn ei ffurf derfynol. Mae'r ddau ymgynghoriad presennol: Yr Angen Parhaus am Gategori Gweithgaredd dan Reolaeth yn y Cynllun Fetio a Gwahardd YNGHYD A gofynion Statudol a chyngor, ar gyfer datgeliadau'r SCT i bwrpasau diogelu, ar weithwyr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn parhau'n weithredol. Y dyddiad cau fydd Gorffennaf 9fed.
http://www.dcsf.gov.uk/consultations/

Nid yw eto'n glir sut y bydd ailfodelu'r Cynllun Fetio a Gwahardd ar ran y Llywodraeth yn effeithio ar ddyfodol cofrestru â'r ADA. Unwaith y daw mwy o wybodaeth ar hyn i law, fe'i trosglwyddwn i chi. Mae'r datganiad i'r wasg i'w weld ar http://www.homeoffice.gov.uk/media-centre/press-releases/Vetting-barring-scheme

National Office: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff CF14 5UW
Swyddfa Genedlaethol: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd Yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Tel / Ffôn: 029 2074 1000 Fax / Ffacs: 029 2074 1047 Email / Ebost: info@clybiauplantcymru.org

A company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436. Registered charity / Elusen Gofrestredig 1093260.